

## Amgueddfa Ar Blât

### Gan Ceri Thompson, Curador (Glo) Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru

Mae ein hamgueddfeydd ar gau ar y funud, ac efallai'ch bod chi'n colli rhai o'r gwrthrychau. Ond dyma gyfle i ailgreu ychydig o'r amgueddfa yn eich cartref, mewn 8 cam syml gyda chymorth ein curadur, Ceri Thompson.



Mae creu Amgueddfa Ar Blât yn hawdd, a gall unrhyw un gymryd rhan heb adael y tŷ.

**Cam 1:** Yn gyntaf, byddwch angen plât neu hambwrdd o unrhyw fath (ond ddim y plât y byddwch yn bwyta'ch swper oddi arno!)

Plât/hambwrdd yn barod? Da iawn. Nawr, **cam 2** - rydych angen chwilio am eitemau i arddangos. Gall hyn fod yn drysor fel hen ffotograff neu geiniog, neu'n bethau bob-dydd fel cwpan. Meddyliwch am bethau a welsoch yn Amgueddfa Cymru.

Does dim rhaid i bopeth mewn amgueddfa fod yn drysorau gwerthfawr. Mae pethau pob-dydd yn gallu dweud llawer wrthym am fywydau pobl y gorffennol.

**Cam 3:** Beth am gynnwys gwrthrych bob-dydd, neu rywbeth sy'n arbennig i chi? Rhywbeth sy'n eich atgoffa o ddiwrnod arbennig, neu drysor teuluol efallai?



Dyma enghraifft o sut gallai'ch amgueddfa fach edrych. Faint o bethau ydych chi wedi'u casglu? Yn dibynnu ar y plât neu hambwrdd, dylai 4 neu 5 fod yn ddigon. Beth yw'r ffordd orau o'r gosod er mwyn eu harddangos?

Os oes rhywun yn dod i weld eich amgueddfa fach, beth allwch chi ddweud wrthyn nhw am y gwrthrychau? Rydych angen labeli! **Cam 4** - Chwiliwch am ddarnau o bapur neu gerdyn i greu labeli.

Meddyliwch beth i'w roi ar y label. Beth wyddoch chi am y gwrthrych? Beth ydi e? O lle daeth? Faint yw ei oed? Pam ei fod yn arbennig? **Cam 5** - Casglwch gymaint o wybodaeth ag y gallwch.

Gallwch brintio neu ysgrifennu'r labeli. Cofiwch bod angen i'r testun fod yn ddigon mawr a chlr i'w ddarllen. Nesaf, mae 2 ddewis...

Dewis 1: Labeli unigol – bydd gan bob eitem ar eich plât ei label ei hun.

### **Labeli ein Trysorau Teuluol**

1. Tun pres ar gyfer baco cnoi a ddefnyddiwyd yng Nglofa Naval Jack Thompson, fy hen dad-cu. Gwnaed ym 1897.

Dewis 2: Prif label – bydd angen rhoi rhif i bob eitem ar y plât. Bydd y label yn rhestru bob eitem yn ôl y rhif.

### **Labeli ein Trysorau Teuluol**

Clocwedd o'r top chwith

1. Tun pres ar gyfer baco cnoi a ddefnyddiwyd yng Nglofa Naval gan Jack Thompson, fy hen dad-cu. Gwnaed ym 1897.

2. Potel bridd i ddal chwerw hopys gan Bamfield & Co. Ltd., Pontypridd, wedi'i darganfod gen i ar lan afon ger Glofa Lewis Merthyr yn ystod gwaith adeiladu. Gwnaed tua 1900.

3. Diogelwr oriawr pres gâi ei ddefnyddio gan fy hen ewythr, Ifan Parry yng Nglofa Cymmer. Diwedd y 19eg ganrif.

4. Potel bridd a wnaed gan Thomas Elliott, Caerdydd, wedi'i darganfod gen i ar lan afon ger Glofa Lewis Merthyr yn ystod gwaith adeiladu. Diwedd y 19eg ganrif.

5. Cetyn bach a châs gâi ei ddefnyddio gan fy hen ewythr, Ernie Morgan pan oedd yn arddwr yn Creigiau. 1920au.

6. Daliwr oriawr arian i'w wisgo ar gadwyn oriawr, tarddiad anhysbys, wedi'i ganfod mewn drôr dreser Gymreig. Dechrau'r 20fed ganrif.

7. Taniwr sigaret pres, tarddiad anhysbys, wedi'i ganfod mewn drôr dreser Gymreig. Dechrau'r 20fed ganrif.

8. Bathodyn milwrol a roddwyr gan filwr Americanaidd wedi'i letya ar Stâd Green Meadow, Tongwynlais i fy hen fodryb, Margaret Morgan pan oedd hi'n 6 oed. 1943.

**Cam 6** - Nawr, ysgrifennwch neu printiwch wybodaeth am bob eitem ar eich papur neu gerdyn – cofiwch bod angen i bopeth fod ddigon clir i'w ddarllen! **Cam 7** - Yna trefnwch y labeli a'r eitemau ar y plât.

Rhaid i'ch amgueddfa fach gael enw! **Cam 8** - Ysgrifennwch yr enw mewn LLYTHRENAU MAWR

Wedi gorffen? Byddem wrth ein bodd yn gweld eich Amgueddfa Ar Blât, felly cofiwch rannu llun gyda ni.

big pit  
national  
Coal  
amgueddfa  
lofaol  
cymru  
museum

national  
museum  
wales  
amgueddfa  
cymru

ysbrydoli pobl  
newid bywydau  
inspiring people  
changing lives